

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
Atebir gohebiaeth Gymraeg yn y Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

Canolfan Iechyd Brunswick
139/140 Heol San Helen
Abertawe, SA1 4DE
Ffôn 01792 643001 / Ffacs 01792 411391
Gwefan: brunswickhealthcentre.co.uk

Annwyl Glaf

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am newidiadau i'n hymarfer a allai fod yn digwydd yn fuan.

Rydym wedi hysbysu'r Bwrdd Iechyd bod y meddygon teulu sy'n berchen ar feddygfa cangen yr Hafod yn 8, Stryd Morgan, ac sy'n ymddeol, yn bwriadu gwerthu'r adeilad.

Mae hyn yn golygu, pan fydd yr adeilad yn cael ei werthu, y bydd ein holl gleifion, gan gynnwys y rhai sy'n mynd i feddygfa cangen yr Hafod, yn parhau i gael mynediad llawn i'n gwasanaethau, ac yn parhau i fod wedi'u cofrestru gyda ni yng Nghanolfan Iechyd Brunswick.

Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar y ffordd rydym yn brysbennu cleifion dros y ffôn (gan benderfynu sut i reoli eu gofal). Bydd cleifion sy'n gaeth i'r tŷ hefyd yn parhau i gael eu gweld fel o'r blaen.

Fodd bynnag, ar ôl eu brysbennu, os bydd angen ymgynghoriadau neu ofal wyneb yn wyneb ar gleifion, bydd angen iddynt gael eu gweld yn ein prif safle, sef Canolfan Iechyd Brunswick yn Heol San Helen.

Yn anffodus, nid yw cangen Stryd Morgan bellach yn addas ar gyfer darparu gofal iechyd modern gan nad yw'n bodloni safonau'r GIG ac nid ydym ni, y meddygon teulu sy'n weddill, yn dymuno prynu'r adeilad am y rheswm hwn.

Mewn cymhariaeth, mae Canolfan Iechyd Brunswick yn adeilad modern, gyda gwell mynediad i gleifion anabl. Drwy gyfuno ein gwasanaethau ar un safle, byddwn yn gallu cynnig mwy o apwyntiadau i gleifion, ac mae gennym hefyd gynlluniau i ehangu ein hystafelloedd clinigol. Rydym hefyd yn bwriadu dod yn bractis addysgu, a fydd o fudd mawr i'n holl gleifion.

Rydym yn sylweddoli y gallai fod gennych gwestiynau, ac rydym wedi ceisio rhagweld rhai o'r rhain yn yr adran Holi ac Ateb isod. Fodd bynnag, efallai y bydd gennych ymholiadau a phwyntiau ychwanegol yr hoffech eu codi.

Felly rydym yn ymgysylltu â chleifion am chwe wythnos i ddeall sut y gallai'r newid hwn effeithio arnoch chi ac rydym yn croesawu'ch adborth. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddarparu ar gyfer unrhyw awgrymiadau sydd gennych os yw'n bosibl ac yn ymarferol gwneud hynny.

Gallwch roi eich adborth i ni trwy'r manylion cyswllt ar ddiwedd y llythyr hwn.

Cwestiynau ac Atebion

Beth fydd y newidiadau'n eu golygu i gleifion?

Bydd holl gleifion yr Hafod yn parhau i fod wedi'u cofrestru gyda Chanolfan Iechyd Brunswick. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r ffordd rydym yn brysbennu cleifion dros y ffôn ac os bydd angen i chi gael eich gweld gan unrhyw un o'n gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyfer apwyntiad, bydd hyn ar ein prif safle yng Nghanolfan Iechyd Brunswick. Gellir gweld pob claf sy'n gaeth i'r tŷ o hyd a bydd angen iddynt ffonio rhif y brif feddygfa ar 01792 643001 i ofyn am ymweliad cartref.

Pryd bydd hyn yn digwydd?

Mae'n bwysig ein bod yn rhoi'r cyfle i gleifion roi adborth, felly rydym yn ymgysylltu â chleifion am chwe wythnos yn gyntaf. Bydd meddygfa cangen yr Hafod yn parhau i weithredu hyd nes y bydd yr adeilad yn cael ei werthu.

A fydd y practis yn gweithredu fel arfer tan hynny?

Gall pob claf barhau i ffonio meddygfa'r cangen fel y gwnânt fel arfer i ofyn am apwyntiad ffôn ac ati, ond gofynnir i bob claf fynychu'r brif feddygfa i gael eu gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Beth fydd yn digwydd i Safle Meddygfa'r Hafod?

Fel perchnogion cofrestredig adeilad yr Hafod, bydd y partneriaid sy'n ymddeol yn rhoi'r adeilad ar werth.

Pa opsiynau sydd ar gael ar gyfer teithio?

Mae trafnidiaeth gyhoeddus dda ar gael, sy'n golygu bod Canolfan Iechyd Brunswick yn hygyrch iawn i gleifion yn ardal yr Hafod. Nid yw meddygfa'r Hafod yn bell o Heol Castell-nedd a dyma un o'r prif lwybrau bysiau i ganol y ddinas.

A oes unrhyw newidiadau i ffin y practis / a fydd angen i fi gofrestru yn rhywle arall?

Does dim cynlluniau i bractis Brunswick newid ei ffiniau.

Os ydych yn glaf presennol sy'n newid cyfeiriad o fewn y ffin bresennol, ni fydd yn ofynnol i chi gofrestru yn rhywle arall.

Os ydych chi'n glaf yn y feddygfa ar hyn o bryd a'ch bod yn byw y tu allan i'n ffiniau, ni fydd yn ofynnol i chi newid meddyg teulu. Fodd bynnag, os byddwch yn newid i gyfeiriad newydd a bod y cyfeiriad newydd y tu allan i'n ffiniau, yna gofynnir i chi gofrestru yn rhywle arall.

Felly dydyn ni ddim wedi newid y ffordd rydym yn derbyn cleifion, cyn belled â'ch bod yn byw o fewn ffiniau ein meddygfeydd.

Fodd bynnag, os ydych chi'n dymuno cofrestru mewn practis arall, mae croeso i chi fynd at y practis sydd gennych mewn golwg a gofyn am gael mynd drwy'r broses gofrestru arferol.

Sut mae cael manylion am feddygfeydd lleol eraill?

Gallwch gysylltu â'r Bartneriaeth Cydwasanaethau leol ar 01792 860451

Os ydw i'n gaeth i'r tŷ ac wedi fy nghofrestru yn yr Hafod, a fyddaf i'n dal i gael fy ngweld gartref?

Byddwch. Byddwn yn dal i weld cleifion sy'n gaeth i'r tŷ yn eu cartrefi unwaith y bydd hyn wedi'i frysennu gan y meddyg.

Beth fydd yn digwydd am bresgripsiynau rheolaidd?

Gall cleifion barhau i archebu eu presgripsiynau rheolaidd ar-lein trwy Fy Iechyd Ar-lein / yn y brif feddygfa neu mae croeso iddynt roi eu ceisiadau i unrhyw fferyllfa leol neu drwy'r post.

Beth fydd yn digwydd i staff y practis?

Mae'r staff i gyd yn cael eu cyflogi yng Nghanolfan Iechyd Brunswick a byddant yn parhau i weithio ar y prif safle.

A fydd cyfleuster parcio yn y brif feddygfa?

Mae gennym gyfleuster parcio anabl y tu ôl i Ganolfan Iechyd Brunswick ac mae digon o le i barcio o flaen yr eiddo ac ar y stryd.

Sut gall cleifion roi adborth neu gael atebion i'w cwestiynau?

Os yw cleifion yn poeni neu os oes ganddynt unrhyw ymholiadau neu adborth, anfonwch e-bost at: SBU.PrimaryCareTeam@wales.nhs.uk

Neu gallwch ffonio Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar: 01792 601800
Gallwch fod yn dawel eich meddwl bod Canolfan Feddygol Brunswick ar agor o hyd ac y bydd yn parhau i ddarparu Gwasanaethau Meddyg Teulu i'n holl gleifion.

Yr eiddoch yn gywir

Dr G Jones, Dr H Locking a Dr R Beynon